Beibl i Blant
yn cyflwyno

Daniel a dirgelwch y freuddwyd



Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Jonathan Hay

addaswyd gan: Mary-Anne S.

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2020 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Cafodd y Brenin Nebwchadnesar freuddwyd, ac roedd y freuddwyd yn ei boeni'n fawr. Trwy allu Duw, llwyddodd Daniel i egluro ystyr y freuddwyd i'r brenin.



Y peth cyntaf wnaeth Daniel oedd disgrifio breuddwyd y brenin yn berffaith. "Eich mawrhydi, fe welsoch chi gerflun anferth. Roedd yn aruthrol fawr!"

“Roedd pen y cerflun wedi ei wneud o aur,” meddai Daniel.



“Roedd ei frest a’i freichiau yn arian.”

“Roedd ei fol a’i gluniau yn bres.”



“Roedd ei goesau yn haearn, …

... a'i draed yn gymysgedd o haearn a chrochenwaith."

Ar ôl disgrifio'r cerflun, siaradodd Daniel am weddill y freuddwyd.

“Fe welsoch chi garreg yn cael ei thorri gan law anweledig,” meddai Daniel wrth y brenin.



“Dyma’r garreg yn taro’r cerflun ar ei draed, a’u malu nhw’n ddarnau.”

“Cafodd y cerflun ei falu’n ddarnau mân, fel llwch, a chafodd y cwbl ei chwythu i ffwrdd gan y gwynt.”

Arhosodd Daniel am eiliad cyn dweud, “Yna fe wnaeth y garreg dyfu’n fynydd enfawr.”

Safodd y brenin mewn syndod! Dyna'n union oedd wedi digwydd yn y freuddwyd. Sut oedd Daniel yn gwybod hynny? Duw oedd wedi dweud wrth Daniel. Yna dechreuodd Daniel egluro ystyr y freuddwyd i'r brenin.


"Mae Duw'r nefoedd wedi rhoi awdurdod, pŵer, grym ac anrhydedd i chi," meddai Daniel wrth y brenin. "Chi ydy'r pen aur."

Dywedodd Daniel wrth y brenin y byddai ei deyrnas aur yn colli ei grym i deyrnas lai, dyna'r deyrnas arian.



TEYRNAS 1

TEYRNAS 2

TEYRNAS 3

TEYRNAS 4

Byddai teyrnas efydd wedyn yn cymryd drosodd. Ac roedd yr haearn a'r ...



TEYRNAS 1

TEYRNAS 2

TEYRNAS 3

TEYRNAS 4

... crochenwaith yn cynrychioli teyrnas rhif pedwar.



TEYRNAS 1

TEYRNAS 2

TEYRNAS 3

TEYRNAS 4

A dyma eiriau olaf Daniel i'r brenin.

"Mae Duw'r nefoedd yn mynd i sefydlu teyrnas fydd yn aros am byth."



Sylweddolodd y brenin mai dim ond Duw fyddai'n gallu rhoi'r doethineb oedd ei angen i wybod ac i ddeall ei freuddwyd.

Cafodd Daniel ei wobrwyo gan Nebwchadnesar gyda llawer o arian, a'i wneud yn ddyn pwysig iawn yn y deyrnas.

Mae Teyrnas 1, 2, a 3 wedi dod ac wedi mynd.
Bydd teyrnas Dduw yn dod ar ôl Teyrnas 4.

Bydd y Meseia yn teyrnasu ar y ddaear.
Yn fuan, efallai!

Daniel a dirgelwch y freuddwyd

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Daniel 2

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16